Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cynnig Gofal Plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru

Darparwr Gofal Plant

Telerau ac Amodau 2018

Gwneir y Cytundeb ar [14/11/2018]

RHWNG:

Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA ("Y Cyngor"); a

Enw a chyfeiriad y lleoliad Gofal Plant ("y Darparwr/wyr Gofal Plant")

y cyfeirir atynt ar y cyd fel "y Partïon" neu bob un ar wahân fel "Parti"

1. Rhagymadrodd

Mae'r cytundeb hwn yn gosod y disgwyliadau ar gyfer pob lleoliad gofal plant sydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor i ddarparu cynnig gofal plant 30 awr Llywodraeth Cymru i rai 3 a 4 oed, sy'n cynnwys hyd at 10 awr yr wythnos o ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen Meithrin a hyd at uchafswm o 20 awr yr wythnos o ofal plant ar y cyd, hyd at uchafswm o 30 awr o gyfuniad o addysg a gofal plant yn ystod tymor ysgol o 39 wythnos y flwyddyn, a 30 awr o ofal plant yr wythnos yn ystod 9 wythnos o'r gwyliau ysgol ("y Cynnig Gofal Plant"). Cyfeirir at yr elfen gofal plant o'r Cynnig Gofal Plant yn y cytundeb hwn fel "y Cynllun". Daw plentyn yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant o'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 3 oed ac mae'n parhau i fod yn gymwys tan y pwynt y cynigir lle addysg amser llawn iddynt gan awdurdod lleol y sir y maent yn byw ynddo, a fydd naill ai'n tymor ar ôl neu fis Medi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 4 oed, neu'r tymor y maent yn troi 4. Mewn achosion lle cynigir lle addysg amser llawn i blant cyn Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed, byddant ond yn gymwys i gael 30 awr yr wythnos o ddarpariaeth gwyliau y tu allan i'r tymor hyd at fis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed

2. Swyddog Awdurdodedig

Bydd cynrychiolwyr y Partïon at ddibenion y cytundeb hwn fel y nodir isod a chyfeirir atynt fel y "Swyddog(ion) Awdurdodedig":

ar gyfer y Cyngor:-

Carys Davies - Rheolwr Strategol Gofal Plant Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE

ar gyfer y Darparwr Gofal Plant:-

[**RHOWCH Enw a Theitl Swydd a CYFEIRIAD**]

3. Dyddiad Dechrau a Hyd y Cytundeb

3.1 Bydd y Cytundeb hwn yn dechrau ar Ebrill 29ain, 2019 yn Sir Benfro a bydd yn parhau hyd nes i Lywodraeth Cymru roi'r gorau i ddarparu cyllid grant i'r Cyngor i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant neu os bydd y Cyngor yn peidio â chyflwyno'r Cynnig Gofal Plant yn amodol ar adolygiad yn ôl yr angen yn sgil canllawiau a deddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg ac yn ddarostyngedig i'r darpariaethau terfynu yn y cytundeb hwn.

3.2 Bydd gan y Cyngor yr hawl i amrywio'r Cytundeb hwn i adlewyrchu newidiadau yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau o du Llywodraeth Cymru. Rhaid i unrhyw amrywiad i'r telerau ac amodau hyn gael eu cytuno'n ysgrifenedig a'u llofnodi gan Swyddog Awdurdodedig y naill barti a'r llall. Os digwydd bod yna amrywiad, bydd holl delerau ac amodau'r Cytundeb hwn yn berthnasol i unrhyw amrywiad o'r fath, oni bai bod y cytundeb hwn yn nodi'n wahanol.

4. Gwasanaethau

4.1 Mae'r Cyngor wedi'i awdurdodi gan Lywodraeth Cymru i weinyddu'r Cynnig Gofal Plant yng Ngheredigion ac ar ran Cynghorau Sir Powys, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ("y Partneriaid").

4.2 Bydd y Cyngor yn hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant, yn dosbarthu ffurflenni cais ac yn asesu ceisiadau a dderbyniwyd oddi wrth rieni/gofalwyr i weld a ydynt yn gymwys. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig ynghylch eu cymhwysedd ac yn cael cyfeirnod unigryw.

4.3 Bydd y Cynllun yn cael ei weinyddu gan uned gofal plant y Cyngor o'i swyddfeydd yng Nghanolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE, a gellir cysylltu â'r uned drwy e-bostio gofalplant@ceredigion.gov.uk ("yr Uned Gofal Plant").

Ceredigion – gofalplant@ceredigion.gov.uk

Sir Gâr – gofalplantsirgar@ceredigion.gov.uk

Powys – gofalplantpowys@ceredigion.gov.uk

Sir Benfro – gofalplantsirbenfro@ceredigion.gov.uk

4.4 Bydd angen i leoliadau gofal plant wneud cais i'r Cyngor a chofrestru gyda'r Cyngor er mwyn darparu'r Cynnig. Darperir rhieni â manylion cyswllt yr holl leoliadau gofal plant lleol, gan nodi'r rhai sydd wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynllun. Bydd rhieni/gofalwyr yn cysylltu â'r lleoliadau gofal plant yn uniongyrchol i archebu'r gofal plant sydd ei angen. Dim ond lleoliadau gofal plant sydd wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynllun fydd yn cael eu cymeradwyo a'u hariannu gan y Cyngor yn unol â'r Cynllun.

4.5 Rhaid i Ddarparwyr Gofal Plant:-

4.5.1 fod wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ("AGC") neu'r Swyddfa dros Safonau Mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau ("Ofsted").

4.5.2 fod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor fel darparwr Gofal Plant ar gyfer y Cynllun;

4.5.3 fod yn gyfarwydd â'r safonau gofynnol cenedlaethol diweddaraf a rhoi unrhyw newidiadau angenrheidiol ar waith

4.5.4 sicrhau bod gan yr holl staff brofiad, sgiliau a chymwysterau priodol.

4.6 Rhaid i Ddarparwyr Gofal Plant roi gwybod i'r Uned Gofal Plant am ofal plant a archebwyd gan ddefnyddio porth adrodd ar-lein

4.7 Rhaid i Ddarparwyr Gofal Plant wneud eu trefniadau cytundebol arferol gyda rhieni/gofalwyr ar gyfer darparu gofal plant a gwasanaethau eraill megis prydau bwyd, cludiant a thripiau.

4.8 Ni all y Cyngor warantu lleoliadau dan y cytundeb hwn.

5. Ymrwymiadau'r Darparwr Gofal Plant

5.1 Rhaid i'r Darparwr Gofal Plant:-

5.1.1 Gyflenwi'r gofal plant a gytunwyd hyd at uchafswm o 20 awr yr wythnos yn ystod y tymor ysgol am 38 wythnos y flwyddyn, a hyd at uchafswm o 20 awr yr wythnos am 9 wythnos o'r gwyliau ysgol. Bydd unrhyw oriau ychwanegol sydd eu hangen ar y rhieni/gofalwyr yn destun cytundeb ar wahân rhwng y Darparwr Gofal Plant a'r rhiant/gofalwr.

5.1.2 Cytuno i gael ei fonitro'n barhaus gan y Cyngor, Llywodraeth Cymru, archwilwyr, a'r contractwr annibynnol a ddewisir gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Cynnig Gofal Plant.

5.1.3 Cyflwyno'r wybodaeth ofynnol ar gyfer y Cyngor fel y'i gosodir yn y Cytundeb hwn, gan gynnwys manylion y plentyn/plant cymwys, a fydd yn cynnwys enw llawn y plentyn/plant, y cyfeirnod unigryw a chyfanswm yr oriau a'r diwrnodau o ofal plant a ddefnyddir bob wythnos, i'r Uned Gofal Plant drwy'r porth adrodd ar-lein.

5.1.4 Cadw at yr amserlen a ddarperir ar gyfer hawlio taliadau gan y Cynllun fel y'i gosodir yng nghymal 6.

5.1.5 Cyflwyno tystiolaeth o bresenoldeb i gefnogi taliadau a hawlir, os bydd hynny'n ofynnol gan yr Uned Gofal Plant.

5.1.6 Bod â chytundeb gyda'r rhiant/gofalwr.

5.1.7 Caniatáu ymweliad gan y Swyddog Awdurdodedig neu swyddog arall hysbysedig i wirio presenoldeb plentyn/plant pan fo'n ofynnol ar gyfer archwiliad.

5.1.8 Rhoi gwybod i'r Uned Gofal Plant os na fydd plentyn yn mynychu am gyfnod o 10 diwrnod gwaith neu ragor heb fod y rhieni/gofalwyr yn rhoi rheswm dilys.

5.1.9 Rhoi gwybod i'r Uned Gofal Plant os na fydd rhiant/gofalwr yn gwneud defnydd o'r oriau a ariennir drwy'r Cynllun.

5.1.10 Hysbysu'r Uned Gofal Plant os bydd plentyn yn gadael y lleoliad gofal plant.

5.1.11 Hysbysu'r Swyddog Awdurdodedig os amheuir bod rhiant/gofalwr yn hawlio arian o'r Cynllun drwy dwyll.

5.1.12 Ad-dalu ar gais y Cyngor unrhyw arian mewn perthynas â'r Cynllun a dalwyd neu a hawliwyd yn anghywir neu'n amhriodol.

5.1.13 Yn cytuno i'r Cyngor ddarparu manylion y Darparwr Gofal Plant a'r plant sydd yn ei gofal sy'n cymryd y Cynnig Gofal Plant i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:

a) Manylion cyswllt y Darparwr Gofal Plant, gan gynnwys rhif ffôn, e-bost a chyfeiriad post a rhif cofrestru AGC;

b) Darpariaeth iaith y lleoliad fel hunan ddatgan i'r Cyngor neu'r Partneriaid ac i AGC;

c) Nifer yr oriau y mae pob plentyn sy'n derbyn y Cynnig Gofal Plant yn y lleoliad wedi archebu a faint o oriau y maent wedi'u mynychu mewn gwirionedd; a

d) Unrhyw gostau ychwanegol y mae rhieni / gofalwyr yn eu hwynebu trwy gymryd y Cynnig Gofal Plant yn y lleoliad gan gynnwys costau bwyd a theithio ac unrhyw oriau ychwanegol a ddefnyddir yn y lleoliad yn ychwanegol at yr oriau sydd ar gael o dan y Cynllun.

5.2 Mae angen i Ddarparwr Gofal Plant gadw cofnodion cyfredol cywir o'r plant sy'n mynychu eu lleoliad a chymryd mesurau diogelwch technegol priodol i ddiogelu'r wybodaeth bersonol a brosesir fel rhan o'r Cynllun.

5.3 Dylai'r Darparwr Gofal Plant drin yr holl wybodaeth am unigolion yn unol â Cyfraith diogelu data'r DU.

5.4 Dylai'r Darparwr Gofal Plant sicrhau bod bob aelod o staff neu wirfoddolwr sydd â mynediad at wybodaeth bersonol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data, gan gynnwys yr angen i ddiogelu'r wybodaeth a pharchu cyfrinachedd, ac a ddylai egluro wrth staff fod unrhyw gamddefnydd o wybodaeth bersonol yn drosedd

5.5 Ni ddylid defnyddio gwybodaeth bersonol a gesglir ac a ddatgelir fel rhan o'r Cynllun at unrhyw ddiben arall oni bai fod y Comisiynydd Gwybodaeth wedi'i awdurdodi'n benodol.

5.6 Rhaid hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw doriadau data personol a broseswyd fel rhan o'r Cynllun o fewn dau ddiwrnod.

6 Trefniadau Talu

6.1 Bydd Darparwyr Gofal Plant yn cael eu talu £ 4.50 yr awr ar gyfer darparu gofal plant i blant 3 a 4 oed sy'n cael eu cadarnhau fel rhai sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun. Bydd hyn hyd at uchafswm o 20 awr yr wythnos o ofal plant yn ystod y tymor a hyd at uchafswm o 30 awr yr wythnos yn ystod 9 wythnos o wyliau'r ysgol wedi'i rannu'n 3 wythnos o ddarpariaeth gwyliau ym mhob tymor ysgol ac yn ddibynnol ar gyflwyno'r wybodaeth berthnasol gwybodaeth gan y Darparwr Gofal Plant i'r Cyngor a'r oriau a ddefnyddir ar gyfer y Cynllun. Bydd yr uchafswm o oriau a dalwyd yn ystod y tymor yn dibynnu ar ble mae'r plentyn yn derbyn y ddarpariaeth ACS a'r nifer o oriau a dderbyniwyd o ddarpariaeth ACS a gynigir. Bydd taliad o'r Cynllun hyd at 30 awr yr wythnos am 9 wythnos o wyliau'r ysgol. Bydd taliad o'r Cynllun hyd at 20 awr yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn yn ystod tymor ysgol. Bydd y taliad o'r Cynllun hyd at 30 awr yr wythnos ar y mwyaf am 9 wythnos y flwyddyn o wyliau'r ysgol. Bydd y Cyngor yn gwneud taliad i'r Darparwr Gofal Plant yn amodol ar gyflwyno gwybodaeth fel y nodir yn y Cytundeb hwn ac ail-hawlio costau o'r fath gan Lywodraeth Cymru trwy gyllid grant.

6.2 Mae modd i ddarparwyr gofal plant gwneud taliadau ychwanegol ar gyfer prydau bwyd a byrbrydau a ddarperir a gallant godi 75c fesul byrbryd a £2 y pryd hyd at uchafswm o £7.50 y dydd i gynnwys 3 pryd bwyd a 2 fyrbryd. Bydd rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am dalu unrhyw daliadau ychwanegol. Ni ddylai darparwyr godi mwy ar rieni sy'n manteisio ar y cynnig ar gyfer unrhyw elfennau ychwanegol na'r hyn a godir ar rieni nad ydynt yn manteisio ar y cynnig. Gall tâl gan y Darparwr Gofal Plant o ffioedd ychwanegol gormodol neu afresymol gyfystyr â thorri'r cytundeb hwn.

6.3 Gall Darparwyr Gofal Plant godi tâl ychwanegol am gludiant. Dylai unrhyw filltiroedd a hawlir adlewyrchu cyfraddau CThEM, sef 45c y filltir ar hyn o bryd. Bydd rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am dalu unrhyw ffioedd ychwanegol.

6.4 Ni all Darparwyr Gofal Plant godi tâl ychwanegol fesul awr ar rieni/gofalwyr ar ben eu ffioedd, ond gallant godi tâl ar rieni/gofalwyr am oriau ychwanegol a ddefnyddir ar eu cyfradd tâl arferol.

6.5 Ni fydd y Cyngor yn talu ffioedd cadw neu ffioedd eraill ond gall Darparwyr Gofal Plant godi tâl ar rieni/gofalwyr os ydy hynny'n rhan o'u telerau ac amodau arferol.

6.6 Bydd Darparwyr Gofal Plant yn cael eu talu ar sail y gofal a archebwyd am y mis dan sylw o fewn paramedrau'r Cynllun. Rhaid i'r Darparwr Gofal Plant lenwi bob rhan o'r ffurflen hawlio a chyflwyno'r ffurflen i'r Uned Gofal Plant drwy gyfrwng y porth adrodd ar-lein yn ystod 4 diwrnod gwaith cyntaf y mis. Os bydd y ffurflen hawlio wedi'i llenwi'n unol â gofynion yr Uned Gofal Plant o fewn 4 diwrnod gwaith cyntaf y mis, bydd y Darparwr Gofal Plant yn derbyn tâl cyn diwedd y mis. Os na fydd y ffurflen hawlio wedi'i llenwi yn ystod 4 diwrnod gwaith cyntaf y mis ond yn cael ei llenwi'n llawn a'i chyflwyno wedi hynny, gwneir y taliad y mis canlynol. Rhaid i Ddarparwyr Gofal Plant gyflwyno'u manylion banc i'r Uned Gofal Plant a gwneir taliadau drwy drosglwyddiadau BACS i gyfrif banc dynodedig y Darparwr Gofal Plant.

6.7 Gwneir taliadau'r Cynllun yn uniongyrchol i'r Lleoliad Gofal Plant gan y Cyngor. Bydd unrhyw oriau sy'n ychwanegol i'r rhai a ariennir gan y Cynllun yn drefniant preifat rhwng y Darparwr Gofal Plant a'r rhiant/gofalwr.

6.8 Bydd y Cyngor yn cadw'r hawl i osod unrhyw swm sy'n ddyledus iddo gan Ddarparwr Gofal Plant, gan gynnwys unrhyw ordaliad a wneir yn sgil taliad neu hawliad anghywir neu amhriodol, yn erbyn unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Darparwr Gofal Plant dan y Cytundeb hwn.

6.9 Bydd rhieni/gofalwyr nad ydynt bellach yn gymwys o ganlyniad i newid yn eu hamgylchiadau'n cael wyth wythnos o Gyfnod Eithrio Dros Dro, pan fydd y gofal plant yn dal i gael ei ariannu'n unol â'r Cynllun. Os na fydd rhiant/gofalwr yn gallu bodloni'r meini prawf cymhwyso ar gyfer y Cynllun ar ôl i'r Cyfnod Eithrio Dros Dro ddod i ben, a bod gofal plant yn cael ei ddarparu ar ôl hynny, bydd y rhiant/gofalwr yn gyfrifol am dalu'r holl ffioedd.

6.10 Bydd cyllid ychwanegol ar gael i gefnogi plant ag Anghenion Addysgol Arbennig a bydd y broses ar gyfer hawlio arian o'r fath yn cael ei lywodraethu gan gytundeb ar wahân. Dylid cysylltu â'r Uned Gofal Plant am ragor o wybodaeth.

6.11 Rhaid i Ddarparwyr Gofal Plant gymryd pob cam rhesymol i osgoi perygl o dwyll i'r Cyngor. Pan amheuir bod yna dwyll, rhaid i'r Darparwr Gofal Plant hysbysu'r Uned Gofal Plant yn ddi-oed.

6.12 Mae'r Darparwr Gofal Plant yn cytuno i ad-dalu i'r Cyngor, o fewn 28 diwrnod gwaith o dderbyn cais ysgrifenedig, unrhyw arian y canfyddir ei fod wedi'i dalu neu'i hawlio'n anghywir neu'n amhriodol.

7. Gofynion Monitro

7.1 Bydd y Darparwr Gofal Plant bob amser yn caniatáu mynediad i'r Swyddog Awdurdodedig a/neu ei gynrychiolydd i ddogfennau, cofnodion a gweithdrefnau perthnasol gyda golwg ar ddarparu'r Cynllun yn foddhaol.

7.2 Bydd y Darparwr Gofal Plant yn darparu'r canlynol ar gyfer y Cyngor bob mis o leiaf:-

7.2.1 Enw'r plentyn sydd wedi'i gofrestru ar gyfer gofal plant dan y Cynllun a'r cyfeirnod cynnig gofal plant unigryw;

7.2.2 Nifer yr oriau a'r diwrnodau o ofal plant a archebwyd fesul plentyn bob wythnos;

7.2.3 Nifer yr oriau o ofal plant y disgwylir y byddant yn cael eu hariannu dan y Cynllun bob wythnos ac nifer y diwrnodau;

7.2.4 Nifer yr oriau y mae plentyn wedi mynychu gofal plant gyda'r Darparwr Gofal Plant bob wythnos;

7.2.5 Yr iaith a ddefnyddir gan y Darparwr Gofal Plant gyda'r plentyn;

7.2.6 Cadarnhad bod y plentyn yn derbyn ei hawliad Cyfnod Sylfaen Meithrin;

7.2.7 Manylion unrhyw ffioedd ychwanegol a godir ar y rhieni.

7.3 Rhaid bod yna systemau yn eu lle gan y Darparwr Gofal Plant i sicrhau bod pob gwybodaeth yn cael ei diweddaru a'i storio'n ddiogel.

8. Deddfwriaeth a Chanllawiau

8.1 Bydd y Darparwr Gofal Plant yn cydymffurfio bob amser â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau ar gyfer gweithredu'r Cynllun yn ddiogel ac (heb effeithio ar gyffredinolrwydd yr uchod) yn arbennig:-

a) Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoledig i blant hyd at 12 oed

b) Deddf Gofal Plant 2006

c) Deddf Plant 1989

d) Deddf Plant 2004

e) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

f) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (Rheoliad (UE) 2016/679) a Deddf Diogelu Data 2018

g) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

h) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1991

i) Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

j) Deddf Cydraddoldeb 2010

k) Deddf Hawliau Dynol 1998

l) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;

m) Deddf Llwgrwobrwyo 2010

n) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

o) Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

9. Cyfleoedd Cyfartal

9.1 Bydd y Darparwr Gofal Plant bob amser yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

9.2 Hyd y bo'n angenrheidiol i alluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'i ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, bydd y Darparwr Gofal Plant yn darparu'r Cyngor ag unrhyw wybodaeth y bydd y Swyddog Awdurdodedig ei hangen o fewn rheswm er mwyn sicrhau bod y Darparwr Gofal Plant yn cydymffurfio â'r Ddeddf dan sylw.

10. Newid o ran Statws Sefydliad

Bydd y Darparwr Gofal Plant yn hysbysu'r Swyddog Awdurdodedig o unrhyw newid i statws y Darparwr Gofal Plant, gan gynnwys o ran cofrestriad a/neu newid perchnogaeth y Darparwr Gofal Plant, a hynny'n ysgrifenedig, o fewn 7 diwrnod gwaith o unrhyw newid o'r fath.

11. Cyfrinachedd

11.1 Mae'r naill barti a'r llall yn ymgymryd i beidio â datgelu, ar unrhyw adeg, i unrhyw unigolyn, unrhyw wybodaeth gyfrinachol ynghylch busnes, materion,

cwsmeriaid, cleientiaid neu gyflenwyr y parti arall, ac eithrio fel y caniateir dan Gymal 5.1.13 a 11.2.

11.2 Gall y naill barti ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol am y parti arall:

(a) i'w weithwyr, swyddogion, cynrychiolwyr neu gynghorwyr sydd angen derbyn gwybodaeth o'r fath at ddibenion ymarfer hawliau'r parti neu gyflawni ei ymrwymiadau dan, neu mewn perthynas â'r cytundeb hwn. Bydd bob parti'n sicrhau bod y gweithwyr, swyddogion, cynrychiolwyr neu gynghorwyr y mae'n datgelu gwybodaeth gyfrinachol y parti arall iddynt yn cydymffurfio â'r cymal 11 hwn; ac

(b) fel y gall fod yn ofynnol gan y gyfraith, llys gydag awdurdodaeth gymwys, neu unrhyw awdurdod llywodraethu neu reoleiddio.

11.3 Ni chaiff unrhyw barti ddefnyddio gwybodaeth gyfrinachol y parti arall at unrhyw ddiben ac eithrio i ymarfer ei hawliau a chwrdd â'i ymrwymiadau dan, neu mewn perthynas â'r cytundeb hwn.

12. Rhyddid Gwybodaeth

12.1 Mae'r Darparwr Gofal Plant yn cydnabod bod y Cyngor a'r Partneriaid yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (SI 2004/3391) a bydd yn cynorthwyo'r Cyngor a'r Partneriaid i gydymffurfio â'u hymrwymiadau o ran datgelu gwybodaeth.

12.2 Mae'r Darparwr Gofal Plant yn cydnabod y gall y Cyngor, wrth weithredu yn unol â Chod Ymarfer yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar Ryddhau Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus o dan Ran 1 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ddatgelu gwybodaeth heb ymgynghori neu gael caniatâd wrth y Darparwr Gofal Plant, ac mae'r Darparwr Gofal Plant yn cytuno y bydd y Cyngor yn gyfrifol am benderfynu yn ei ddisgresiwn llwyr a yw unrhyw wybodaeth wedi'i heithrio rhag datgelu neu i ryddhau gwybodaeth yn unol â darpariaethau'r Cod Ymarfer ar Wybodaeth y Llywodraeth, DRhG neu'r RhGA

13. Cwynion

Bydd y Darparwr Gofal Plant yn gosod gweithdrefnau clir ar gyfer delio â chwynion gan ddefnyddwyr. Rhaid i'r gweithdrefnau hyn gynnwys cofnod

ysgrifenedig o'r holl gŵynion ac unrhyw gamau a gymerwyd. Bydd y gweithdrefnau a'r cofnodion ar gael i'w harchwilio gan y Swyddog Awdurdodedig neu'i gynrychiolydd os gwneir cais.

14. Is-gontractio a Throsglwyddo

Ni chaiff y Darparwr Gofal Plant drosglwyddo nag is-gontractio'i gyfrifoldebau a'i hawliau dan y Cytundeb hwn heb gael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor ymlaen llaw.

15. Staffio

15.1 Bydd y Darparwr Gofal Plant yn darparu, ar gais Swyddog Awdurdodedig y Cyngor neu'i gynrychiolwyr, siart trefniadol yn cynnwys manylion strwythur staffio a rheoli'r Darparwr Gofal Plant, gan gynnwys manylion cymwysterau aelodau staff allweddol. Bydd y Darparwr Gofal Plant yn rhoi gwybod i Swyddog Awdurdodedig y Cyngor am unrhyw newidiadau i'r staff o fewn 30 diwrnod gwaith.

15.2 Bydd y Darparwr Gofal Plant yn sicrhau bod yr holl wiriadau perthnasol yn cael eu cwblhau cyn bod unigolyn yn dechrau gweithio gyda phlant, neu'n dod i gysylltiad rheolaidd â phlant heb oruchwyliaeth. Rhaid i'r Darparwr Gofal Plant sicrhau bod yr holl staff a rheolwyr sy'n gweithio yn y lleoliad wedi gwneud cais am, a derbyn tystysgrif gwiriad manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a rhaid adnewyddu honno bob tair blynedd. Rhaid i'r Darparwr Gofal Plant roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw atgyfeiriadau diogelu a wnaed gan y Darparwr Gofal Plant i'r Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag aelod staff, myfyriwr, hyfforddai a/neu wirfoddolwr sy'n gweithio yn y lleoliad.

15.3 Rhaid i'r Darparwr Gofal Plant sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi'n briodol, gan gynnwys cwblhau a diweddaru'r holl hyfforddiant gorfodol yn rheolaidd yn ôl y gofyn, wedi'i oruchwylio a'i reoli i gynnwys sesiynau un i un rheolaidd, adolygiadau o berfformiad a mynediad i gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus. Dylai'r holl bobl a grybwyllir uchod sydd ynghlwm â'r Darparwr Gofal Plant fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu data yn ogystal.

15.4 Rhaid i'r Darparwr Gofal Plant sicrhau bod trefniadau cyflenwi yn eu lle pan fydd staff ar eu gwyliau, yn sâl, yn derbyn hyfforddiant neu'n absennol am resymau eraill, heb unrhyw gost ychwanegol i'r Cyngor.

16. Yswiriant ac Indemniad

16.1 Bydd y Darparwr Gofal Plant yn indemnio ac yn sicrhau bod y Cyngor a'r Partneriaid yn parhau i fod wedi'u hindemnio rhag anaf neu farwolaeth unrhyw unigolyn neu unigolion, a cholled neu ddifrod i unrhyw eiddo, gan gynnwys eiddo'r Cyngor neu'r Partneriaid, yn erbyn unrhyw gamau, hawliadau, gofynion, achosion, difrod, costau, taliadau a threuliau o unrhyw fath sy'n codi yn sgil darparu'r Cynllun neu mewn perthynas â'r Cynllun (sydd, i osgoi unrhyw amheuaeth, yn cynnwys hawliadau sy'n seiliedig ar Ddeddf Hawliau Dynol 1998), ac eithrio, ac i'r graddau y gall godi yn sgil gweithred, diffyg neu esgeulustod ar ran y Cyngor neu'r Partneriaid, neu eu gweithwyr neu asiantau, ar wahân i'r Darparwr Gofal Plant neu weithwyr y Darparwr Gofal Plant.

16.2 Heb gyfyngu, drwy hyn, ar ei gyfrifoldebau o dan yr amod hwn, bydd y Darparwr Gofal Plant yn yswirio, gyda chwmni yswiriant dibynadwy, yn erbyn pob colled a difrod i eiddo, ac anaf i, neu farwolaeth unigolion sy'n codi yn sgil neu o ganlyniad i ymrwymiadau'r Darparwr Gofal Plant dan y Cytundeb hwn, ac yn erbyn unrhyw gamau, hawliadau, gofynion, achosion, difrod, costau, taliadau a threuliau o unrhyw fath mewn perthynas â'r Cytundeb.

16.3 Ac eithrio mewn perthynas ag atebolrwydd dros farwolaeth neu anaf personol sy'n deillio o esgeulustod y Cyngor neu'r Partneriaid neu'u gweision, ni fydd y Cyngor a'r Partneriaid yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod, p'un ai yw hwnnw wedi'i achosi drwy esgeulustod y Cyngor neu'i weision neu asiantau, neu mewn unrhyw ffordd arall, ac ni fydd y Cyngor, dan unrhyw amgylchiadau, yn atebol i'r Darparwr Gofal Plant am unrhyw golled o ran elw, busnes neu gynnyrch, neu unrhyw golled neu ddifrod tebyg, p'un ai'n uniongyrchol, yn anuniongyrchol neu'n ôl-ddilynol, sut bynnag y'i hachoswyd.

16.4 Bydd y Darparwr Gofal Plant yn cynnal, gyda chwmni yswiriant dibynadwy, unrhyw yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, yswiriant indemniad proffesiynol ac unrhyw yswiriant arall sydd ei angen i gwrdd ag unrhyw atebolrwydd sy'n deillio o'r Cytundeb hwn, gyda lefel indemniad o £5,000,000 o leiaf am unrhyw un digwyddiad, a rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn unrhyw ddeddfwriaeth o bryd i'w gilydd. Ni fydd y Darparwr Gofal Plant yn gwneud nac yn caniatáu gwneud unrhyw beth a fyddai'n gwneud yswiriant o'r fath yn ddi-rym neu'n ddirymadwy.

16.5 Ni fydd atebolrwydd ac indemniad y Darparwr Gofal Plant i'r Cyngor a'r Partneriaid sy'n deillio o'r amodau hyn yn amharu ar unrhyw hawl neu welliant arall sydd ar gael i'r Cyngor a'r Partneriaid.

17. *Force Majeure*

17.1 Yn amodol ar weddill y darpariaethau yn y cymal hwn, ni fydd y naill Barti sy'n rhan o'r cytundeb hwn yn atebol i'r llall am unrhyw oedi neu fethiant i gwrdd â'i ymrwymiadau dan y cytundeb, i'r graddau bod y methiant hwnnw i gyflawni oherwydd gweithredoedd, digwyddiadau, esgeulustod neu annigwyddiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth resymol, gan gynnwys gweithredoedd Duw, terfysgoedd, rhyfel, terfysgaeth, tân, llifogydd, storm neu ddaeargryn, neu o ganlyniad i weithredu diwydiannol ("digwyddiad *Force Majeure*").

17.2 Os digwydd bod y naill Barti neu'r llall yn gorfod oedi neu'n cael ei rwystro rhag cwrdd â'i ymrwymiadau dan y cytundeb hwn oherwydd digwyddiad *Force Majeure*, bydd y Parti hwnnw:

17.2.1 yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Parti arall ynghylch unrhyw oedi neu rwystr o'r fath cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosib, gan nodi'r dyddiad cychwyn a graddau'r oedi neu'r rhwystr, beth yw'r achos amdano ac amcangyfrif o'i hyd;

17.2.2 yn gwneud pob ymdrech resymol i liniaru effeithiau unrhyw oedi neu rwystr ar ei allu i gwrdd â'i ymrwymiadau dan y cytundeb hwn; ac

17.2.3 yn ailddechrau cwrdd â'i ymrwymiadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosib ar ôl cael gwared ag achos yr oedi neu'r rhwystr.

17.3 Ni all Parti hawlio rhyddhad os ydy'r digwyddiad *Force Majeure* o ganlyniad i weithred fwriadol, esgeulustod neu fethu â chymryd rhagofalon rhesymol yn erbyn y digwyddiad *Force Majeure* dan sylw.

17.4 Ni all y Darparwr Gofal Plant hawlio rhyddhad os ydy'r digwyddiad *Force Majeure* yn un y dylai darparwr gwasanaeth rhesymol fod wedi'i ragweld a darparu ar ei gyfer.

17.5 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn hysbysiad y Parti sydd wedi'i effeithio, bydd y Partïon yn ymgynghori â'i gilydd gydag ewyllys da ac yn gwneud pob ymdrech resymol i gytuno ar delerau priodol i liniaru effeithiau'r digwyddiad *Force Majeure,* a sicrhau bod y cytundeb hwn yn dal i gael ei weithredu. Os mai'r Darparwr Gofal Plant yw'r Parti a effeithir, bydd yn cymryd a/neu yn caffael pob cam angenrheidiol i oresgyn neu leihau canlyniadau'r digwyddiad *Force Majeure* yn unol ag arfer gorau'r diwydiant.

17.6 Bydd y Parti a effeithir yn hysbysu'r Parti arall cyn gynted ag y bo'n ymarferol pan fydd y digwyddiad *Force Majeure* yn dod i ben, neu pan na fydd bellach yn effeithio ar allu'r Parti a effeithiwyd i gwrdd â'i ymrwymiadau dan y cytundeb hwn. Yn dilyn hysbysiad o'r fath, bydd y cytundeb hwn yn parhau i gael ei weithredu ar y telerau oedd yn bodoli cyn i'r digwyddiad *Force Majeure* gymryd lle, oni bai bod y Partïon yn cytuno fel arall.

17.7 Gall y Cyngor, os bydd digwyddiad *Force Majeure* yn parhau, ddod â'r cytundeb hwn i ben drwy rybudd ysgrifenedig i'r Darparwr Gofal Plant, os

bydd yna ddigwyddiad *Force Majeure* sy'n effeithio ar y cyfan neu ran sylweddol o'r Cynllun ac sy'n parhau am fwy nag 20 diwrnod gwaith.

18. Dod â'r Cytundeb i Ben

18.1 Gall y Darparwr Gofal Plant ddod â'r cytundeb i ben drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyngor wyth wythnos ymlaen llaw.

18.2 Gall y Cyngor ddod â'r cytundeb hwn i ben yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw adeg, yn amodol ar un fis o rybudd ysgrifenedig i'r Darparwr Gofal Plant.

18.3 Mewn achos o dor-cytundeb difrifol neu fynych, mae gan y naill Barti a'r llall yr hawl i ddod â'r cytundeb i ben, a hynny'n effeithiol ar unwaith, drwy ysgrifennu at y Swyddog Awdurdodedig yn y cyfeiriad a nodir yng nghymal 2. Os bydd Darparwr Gofal Plant yn methu â bodloni amodau'r Cytundeb hwn yn gyson, gall y Cyngor gymryd camau i ddadgofrestru'r Darparwr Gofal Plant fel cyflenwr gofal plant ar gyfer y Cynllun.

18.4 Serch darpariaethau Cymal 18.2, gall y Cyngor fod â'r hawl i ddod â'r Contract hwn i ben (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), a hynny'n effeithiol ar unwaith, drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Darparwr Gofal Plant dan yr amgylchiadau canlynol:

18.4.1 os yw Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i ddarparu cyllid grant i'r Cyngor mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant;

18.4.2 os bydd y Darparwr Gofal Plant yn torri unrhyw un o'i ymrwymiadau dan y Cytundeb a bod modd unioni hynny, a'i fod yn methu â gwneud hynny o fewn 5 diwrnod gwaith (neu gyfnod arall a gytunir yn ysgrifenedig rhwng y partïon) o ddyddiad derbyn cais ysgrifenedig gan y Cyngor i unioni'r sefyllfa;

18.4.3 os bydd y Darparwr Gofal Plant yn cael derbynnydd neu dderbynnydd gweinyddol wedi'i benodi i weithredu drosto neu dros unrhyw ran o'i ymrwymiadau neu asedau, neu'n pasio cynnig ar gyfer dirwyn i ben (ac eithrio at ddibenion cynllun *bona fide* o uno neu ail-lunio diddyled) neu fod llys o awdurdodaeth gymwys yn gwneud gorchymyn i'r perwyl hwnnw, neu os bydd y Parti arall yn dod yn destun gorchymyn gweinyddol neu'n dod i unrhyw drefniant gwirfoddol gyda'i gredydwyr, neu'n dod â'r busnes i ben neu'n bygwth gwneud hynny.

18.4.4 os cynhelir cyfarfod at ddibenion ystyried cynnig, neu os cymerir camau eraill i ddod â'r Darparwr Gofal Plant i ben, neu i baratoi gorchymyn gweinyddol (ac eithrio at ddibenion uno neu ail-lunio);

18.4.5 os ydy'r Darparwr Gofal Plant wedi cynnig, neu roi, neu gytuno i roi i unrhyw unigolyn, unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel cymhelliant neu wobr am wneud, neu ymatal rhag gwneud unrhyw weithred mewn perthynas â chael neu weithredu'r Cytundeb hwn, neu unrhyw gontract arall gyda'r Cyngor, neu am ddangos, neu ymatal rhag dangos unrhyw ffafriaeth neu anffafriaeth tuag ag unrhyw unigolyn mewn perthynas â'r Cytundeb hwn neu unrhyw gontract arall gyda'r Cyngor, neu os ydy gweithredoedd o'r fath wedi'u cyflawni gan unrhyw unigolyn a gyflogir ganddo neu sy'n gweithredu ar ei ran (p'un ai ydy'r Darparwr Gofal Plant yn gwybod ai peidio) neu, mewn perthynas ag unrhyw gontract gyda'r Cyngor, bod y Darparwr Gofal Plant neu unrhyw un a gyflogir ganddo, neu sy'n gweithredu ar ei ran, wedi cyflawni unrhyw drosedd dan Ddeddfau Atal Llwgrwobrwyo 1889 ac 1916 neu wedi rhoi unrhyw ffi neu wobr y mae ei dderbyn yn drosedd dan is-adran (2) neu (3) o Adran 117 Deddf Llywodraeth Leol 1972;

18.4.6 os bydd yna newid rheolaeth mewn perthynas â'r Darparwr Gofal Plant neu (os ydy'r Darparwr Gofal Plant yn is-gwmni) o fewn ei gwmni daliannol.

18.5 Os digwydd bod y Cytundeb hwn yn cael ei derfynu (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) am unrhyw un o'r rhesymau a nodir yng Nghymal 18.4 gall y Cyngor ymarfer unrhyw un neu bob un o'r hawliau canlynol:

18.5.1 gall y Cyngor ofyn i'r Darparwr Gofal Plant i gyflawni unrhyw un o'i ymrwymiadau sy'n bodoli ar ddyddiad y terfynu;

18.5.2 ni fydd y Cyngor bellach dan unrhyw ymrwymiad i wneud taliadau pellach dan y Cytundeb hwn;

18.5.3 bydd gan y Cyngor yr hawl i adfer oddi wrth y Darparwr Gofal Plant unrhyw golled, iawndal, costau neu dreuliau i'r Cyngor yn sgil dod â'r Cytundeb hwn i ben (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) gan gynnwys costau rhesymol y Cyngor am yr amser a dreulir gan ei swyddogion yn dod â'r Cytundeb hwn i ben (yn gyfan gwbl neu'n rhannol).

18.6 Ni fydd dod â'r Cytundeb hwn i ben (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) neu ddiwedd y Cytundeb hwn yn amharu ar yr hawliau a'r camau unioni y gall Parti fod â'r hawl iddynt drwy hyn, neu yn ôl y gyfraith, ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw un o hawliau cronedig neu atebolrwydd y naill Barti na'r llall, nac yn sefydlu neu'n parhau grym unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â'r hyn a fwriedir, yn benodol neu drwy ensyniad, i sefydlu neu barhau grym ar, neu ar ôl terfyniad neu ddiwedd o'r fath.

19. Ildio Hawl

19.1 Os yw parti yn methu â gorfodi telerau'r Cytundeb hwn mewn unrhyw ffordd, yna ni fydd hyn yn golygu hepgor mewn unrhyw ffordd o'r hawl i orfodi

unrhyw un o'r telerau Contract am unrhyw reswm o gwbl.

20. Safonau'r Gymraeg

20.1 Anogir y Darparwr Gofal Plant i gydymffurfio â'r egwyddorion a nodir yn adrannau perthnasol Safonau'r Gymraeg (yn unol â Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011), a osodir ar y Cyngor Sir priodol y mae'r Darparwr Gwasanaeth yn gweithredu ynddi; ac o ganlyniad, yn gweithio tuag at sicrhau cynnig gweithredol o wasanaeth cyfrwng Cymraeg

20.2 Gellir gweld copi llawn o'r Safonau Iaith Gymraeg ar wefan y Cyngor Sir fel a ganlyn

Cyngor Sir Ceredigion

http://www.ceredigion.gov.uk/media/2505/ceredigion-welsh-language-standards-welsh.pdf

http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisïau/iaith-gymraeg/safonau-r-gymraeg/

Cyngor Sir Gaerfyrddin

https://www.sirgar.llyw.cymru/media/2307/strategaeth-hybu.pdf

https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/2297/20170321-hysbysiad-cydymffurfio44-cyngor-sir-gâr-en.pdf (ENGLISH ONLY)

Cyngor Sir Benfro

https://www.sir-benfro.gov.uk/gwasanaethau-i-gwsmeriaid/paratowyd-safonaur-gymraeg

Cyngor Sir Powys

https://cwsmer.powys.gov.uk/article/3269/Safonaur-Gymraeg

20.3 Gyda'r gofynion hyn mewn golwg, anogir y Darparwr Gofal Plant i ddatblygu a mabwysiadu Polisi Iaith Gymraeg. Gellir canfod canllawiau a thempled ar wefan Comisiynydd y Gymraeg: www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu

20.4 Ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yng Ngheredigion, anogir y Darparwr Gofal Plant i weithio tuag at gyflawni'r adrannau perthnasol o Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor trwy ddarparu gwasanaeth dwyieithog fel a ganlyn:

(i) Sicrhau bod y rhiant / gofalwr a'r teulu yn cael cynnig dewis gwasanaeth yn Gymraeg neu Saesneg ar gyfer (a) cyswllt llafar a (b) cyfathrebu ysgrifenedig;
(ii) Rhaid cofnodi dewis iaith y rhiant / gofalwr a'r teulu am (a) cyswllt llafar a (b) cyfathrebu ysgrifenedig, a defnyddio'r iaith honno ar gyfer pob cyfathrebiad dilynol;
(iii) Rhannu cofnod dewis iaith ar gyfer pob cyswllt dilynol gydag eraill;
(iv) Sicrhau bod y wybodaeth a'r llenyddiaeth a ddarperir gennych ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog;
(v) Sicrhau bod arwyddion mewnol ac allanol yn ddwyieithog;
(vi) Sicrhau bod hysbysebion yn ddwyieithog;
Sicrhewch fod gennych chi'ch trefniadau eich hun i gyfieithu unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig

20.5 Bydd y Darparwr Gofal Plant yn gyfrifol am hyrwyddo a monitro darparu'r Cynllun yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r rhiant / gofalwr a bydd yn defnyddio pob cam rhesymol i gyflawni hyn.

20.6 Ni fydd y cymal yma 20 yn gymwys i Ddarparwr Gofal Plant y tu allan i Gymru

21. Datrys Anghydfod

21.1 Serch darpariaeth gyfryngu Cymal 21.4, os bydd un Parti o'r farn nad yw'r llall yn cyflawni'i ymrwymiadau dan delerau'r cytundeb, bydd yn cysylltu â'r Parti arall i drafod y materion/problemau er mwyn ceisio'u datrys yn ystod y cam hwn.

21.2 Yn y lle cyntaf, dylai'r Swyddogion Awdurdodedig gysylltu â'i gilydd er mwyn ceisio datrys unrhyw faterion/problemau. Gall hyn olygu cael cymorth aelodau staff os oes angen.

21.3 Os na fydd y naill Barti na'r llall yn fodlon gyda chanlyniad y trafodaethau, neu os ydy'r Partïon yn dal i gael problemau, yna bydd Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Dysgu'r Cyngor yn camu mewn i geisio datrys y mater.

21.4 Yn y pen draw, os ydy'r anghydfod yn parhau, gellir cyfeirio'r materion sydd heb eu datrys at sylw cyfryngwr. Gall y Partïon benodi cyfryngwr annibynnol ar y cyd, gyda'r costau'n cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y ddau Barti sy'n rhan o'r anghydfod. Os na all y Partïon gytuno ynghylch penodi cyfryngwr, bydd y Partïon yn gofyn i'r Ganolfan ar gyfer Datrys Anghydfodau'n Effeithiol (CEDR) i benodi cyfryngwr.

21.5 Ni fydd dim yn y cymal hwn yn atal unrhyw Barti rhag ceisio atebolrwydd drwy'r Llysoedd.

22. Cildyrnau a Deddf Llwgrwobrwyo 2010

22.1 Ni fydd y Darparwr Gofal Plant, dan unrhyw amgylchiadau, ynddo'i hun neu ar ran unrhyw un arall a gyflogir ganddo i ddarparu'r Cynllun, yn rhoi neu'n cytuno i roi i'r Cyngor unrhyw gynnig o daliad, rhodd, gwobr, casgliad, tâl neu unrhyw fath arall o dderbyn arian gyda'r bwriad o gael triniaeth ffafriol dan y Cytundeb hwn neu unrhyw gontract arall.

22.2 Mae'r Darparwr Gofal Plant yn gwarantu, datgan ac addo i'r Cyngor fod y Darparwr a'i gyflogwyr, ymgynghorwyr, asiantau neu is-gontractwyr bob amser yn cydymffurfio â Deddf Llwgrwobrwyo 2010 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir dan y Ddeddf honno o bryd i'w gilydd, ynghyd ag unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer a gyhoeddir gan yr adran llywodraeth berthnasol mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth.

22.3 Bydd y Darparwr Gofal Plant, os gwneir cais, yn darparu'r Cyngor ag unrhyw gymorth rhesymol i ymchwilio i unrhyw achosion posib o dorri Deddf Llwgrwobrwyo 2010.

22.4 Os amheuir bod achos o dorri cymal 22 neu gymal 23.1 yn debygol o ddigwydd neu wedi digwydd, rhaid i'r Darparwr Gofal Plant hysbysu'r Cyngor ar unwaith.

22.5 Os bydd y Darparwr Gofal Plant neu unrhyw un o'i weithwyr, ymgynghorwyr, asiantau neu is-gontractwyr yn gweithredu mewn modd sy'n torri Deddf Llwgrwobrwyo 2010 neu Gymal 22, gall y Cyngor:

22.5.1 ddod â'r Contract hwn i ben, yn effeithiol ar unwaith, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig, ac

22.5.2 adfer, yn llawn, oddi wrth y Darparwr Gofal Plant unrhyw golledion a wynebir gan y Cyngor o ganlyniad i dorri'r Ddeddf.

23. Cydymffurfio â Chyfreithiau Atal Caethwasiaeth a Masnachu Pobl

23.1 Er mwyn cyflawni'i ymrwymiadau dan y Cytundeb, bydd y Darparwr Gofal Plant yn:

23.1.1 cydymffurfio â'r holl ddeddfau, statudau, rheoliadau a chodau atal caethwasiaeth a masnachu pobl perthnasol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015;

23.1.2 llunio a chynnal trwy gydol cyfnod y Cytundeb ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun i sicrhau ei fod yn cydymffurfio;

23.1.3 cynnwys mewn contractau gyda'i is-gontractwyr a'i gyflenwyr uniongyrchol, ddarpariaethau sydd o leiaf mor llym â'r rhai a osodwyd yn y cymal 23 hwn.

23.2 Mae'r Darparwr Gofal Plant yn datgan ac yn gwarantu'r canlynol ar ddyddiad y Cytundeb hwn:

23.2.1 nad yw'r Darparwr Gofal Plant na dim o'i swyddogion, gweithwyr neu unigolion eraill cysylltiedig:

(i) wedi cael ynrhyw euogfarn mewn perthynas â chaethwasiaeth a masnachu pobl; ac

(ii) ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol, hyd eithaf ei wybodaeth, wedi bod, neu ar y pryd yn destun unrhyw ymchwiliad, ymholiad neu gamau gorfodi gan unrhyw gorff llywodraethu, gweinyddu neu reoleiddio mewn perthynas ag unrhyw drosedd neu drosedd honedig sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth a masnachu pobl.

23.3 Bydd y Darparwr Gofal Plant yn hysbysu'r Cyngor cyn gynted ag y daw'n ymwybodol o:

23.3.1 unrhyw achos, neu achos posib o dorri Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015; a/neu

23.3.2 unrhyw amheuaeth neu achos go iawn o gaethwasiaeth neu fasnachu pobl o fewn cadwyn gyflenwi sydd â chysylltiad â'r Cytundeb.

23.4 Bydd y Darparwr Gofal Plant:

23.4.1 yn cadw set gyfan o gofnodion i olrhain cadwyn gyflenwi'r holl waith, nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor mewn perthynas â'r Cytundeb hwn; ac

23.4.2 yn caniatáu i'r Cyngor, ar dderbyn rhybudd rhesymol yn ystod oriau busnes arferol, ond heb rybudd mewn achosion o amheuaeth resymol

bod y cymal 23 hwn wedi'i dorri, i gael mynediad i, a chymryd copïau o gofnodion y Darparwr Gofal Plant, ac unrhyw wybodaeth arall, a chwrdd â holl bersonél y Darparwr Gofal Plant i archwilio a yw'r Darparwr Gofal Plant yn cydymffurfio â'i ymrwymiadau dan y cymal hwn.

23.5 Bydd y Darparwr Gofal Plant yn indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw golledion, atebolrwydd, iawndal, costau (heb eu cyfyngu i gostau cyfreithiol) a threuliau a wynebir gan, neu a ddyfarnir yn erbyn y Cyngor o ganlyniad i dorri Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn sgil unrhyw weithredu neu esgeulustod gan y Darparwr Gofal Plant a'i is-gontractwyr a/neu gyflenwyr.

23.6 Gall y Cyngor ddod â'r Cytundeb i ben, yn effeithiol ar unwaith, drwy roi rhybudd ysgrifenedig os bydd y Darparwr Gofal Plant yn torri Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

24. Iechyd a Diogelwch

24.1 Bydd y darparwr gofal plant yn rhoi sylw i ddarpariaethau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac unrhyw welliannau a wneir iddi, ynghyd â deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer eraill sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r cytundeb hwn.

24.2 Bydd y Darparwr Gofal Plant yn cynhyrchu, pan fo'n ofynnol gan y Cyngor, gofnodion boddhaol o gyfarwyddyd a hyfforddiant ar gyfer ei staff, a'i weithdrefnau ysgrifenedig, yn dangos sut mae'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

25. Hysbysiadau

25.1 Bydd unrhyw hysbysiad a roir dan y Cytundeb hwn yn un ysgrifenedig a bernir ei fod wedi'i roi os caiff ei gyflwyno â llaw neu ei anfon trwy'r post dosbarth cyntaf wedi'i dalu ymlaen llaw neu'r gwasanaeth cyflwyno diwrnod gwaith nesaf arall, ac os yw'n cael ei gyfeirio at Swyddog Awdurdodedig y Parti i'r cyfeiriad fel y nodir yng Nghymal 2 neu i gyfeiriad arall a hysbysir yn ysgrifenedig i y llall at y diben hwn.

25.2 Bernir bod unrhyw hysbysiad a ddosbarthir trwy law wedi'i roi ar yr adeg y cafodd ei ddosbarthu trwy law. Bernir bod unrhyw hysbysiad a anfonir drwy'r post wedi'i roi dau ddiwrnod gwaith ar ôl ei bostio.

25.3 Nid yw'r Cymal hwn yn berthnasol i senario sy'n cynnwys achosion neu ddogfennau eraill sy'n gysylltiedig â chamau cyfreithiol.

26. Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999

Mae'r partïon yn y Cytundeb hwn yn cytuno bod darpariaethau Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 wedi'u heithrio drwy hyn.

27. Y Gyfraith

Bydd y Cytundeb hwn yn cael ei lywodraethu gan, a'i ddehongli'n unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr, fel y maent yn berthnasol yng Nghymru.

Dychwelwch y cytundeb yma naill a'i yn y post at:

Uned Gofal Plant / Childcare Unit
Cyngor Sir Ceredigion County Council.
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

Neu drwy e-bost i:

Ceredigion – gofalplant@ceredigion.gov.uk

Sir Gâr – gofalplantsirgar@ceredigion.gov.uk

Powys – gofalplantpowys@ceredigion.gov.uk

Sir Benfro – gofalplantsirbenfro@ceredigion.gov.uk

LLOFNODION

Ar ran y Cyngor	
Swyddog Awdurdodedig y Cyngor:	
Llofnod:	
Printiwch eich Enw: **Dyddiad:** **Swydd:**	Meinir Ebbsworth Swyddog Arweiniol Corfforaethol / Corporate Lead Officer
Llofnod:	
Printiwch eich Enw: **Dyddiad:** **Swydd:**	Carys Davies Rheolwraig Strategol Gofal Plant / Childcare Strategic Manager

Ar gyfer y Darparwr Gofal Plant	
Llofnodwr awdurdodedig ar gyfer ac ar ran y Darparwr:	
Llofnod:	
Printiwch eich Enw: **Dyddiad:** **Swydd:**	